www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Ymgyrch dwristiaeth yn darparu llwybr i ffyniant

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Ymgyrch dwristiaeth yn darparu llwybr i ffyniant

Mae ymgyrch dwristiaeth fawr yn camu ymlaen yng Ngogledd Cymru ac yn targedu gweithgaredd hamdden mwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig.

Mae cerdded dair gwaith yn fwy poblogaidd na nofio, ei gystadleuydd agosaf o blith y gweithgareddau corfforol, gyda 44.5 y cant o oedolion yn mwynhau cerdded am fwy na dwy filltir yn rheolaidd.

Yn awr, bwriedir lansio rhwydwaith o deithiau cerdded o amgylch trefi – dan yr enw the 'Seven Wanders of North Wales' – yr haf yma.

Gwnaed y cyhoeddiad yn Fforwm Blynyddol Cerdded Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llanelwy dan adain Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru. Bydd y teithiau cerdded yn cynnwys saith o drefi mwyaf hanesyddol y rhanbarth a chânt eu cynnal bob wythnos o fis Gorffennaf i fis Medi.

Biwmares, Caernarfon, Conwy, Caergybi, Llandudno, Llangollen a Phorthaethwy yw'r trefi sy'n cymryd rhan eleni ond y gobaith yw y gellir ehangu'r cynllun i drefi eraill, yn cynnwys Rhuthun, Dinbych a Threffynnon yn y dyfodol.

Cymdeithas Tywyswyr Gogledd Cymru sydd y tu ôl i'r syniad ac meddai ei Chadeirydd, Mandy Whitehead: "Rydym wedi dewis saith o drefi craidd lle gallwn gefnogi'r fenter gyda'n tywyswyr cymwysedig.

"Mae hynny'n golygu, beth bynnag fydd yn digwydd, bydd tywysydd yn sefyll ar y gornel yn y dref honno ar yr amser priodol, yn barod i arwain taith gerdded hyd yn oed os mai dim ond un unigolyn sydd yno.

"Os ydych ar eich gwyliau yng Ngogledd Cymru a'r tywydd yn golygu na allwch fynd i fyny'r Wyddfa gallwch fod yn siŵr y bydd taith dywys i chi ei mwynhau yn lle hynny."

Mae'r teithiau cerdded yn cychwyn ar 4 Gorffennaf, yn para rhwng awr ac awr a hanner ac yn costio £4 i oedolion, £3 i'r henoed a £1 i blant.

Ychwanegodd Mandy Whitehead: "Bydd y teithiau cerdded yn dathlu treftadaeth gyfoethog y trefi hyn ac yn adrodd hanesion am bobl, gan ddod â'r hanes yn fyw."

Estynnwyd croeso iddynt gan brif weithredwr Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, Dewi Davies, a ddywedodd: "Dyma fenter cwbl wych, i'r dim.

"Mae gallu cael gwybodaeth yn syth o lygad y ffynnon gan arbenigwr yn ffordd ragorol o ddysgu am hanes tref – mae'r syniad yn siŵr o gydio.

"Mae'n creu rheswm i rywun dreulio amser mewn tref yn hytrach na mynd yn ôl i'r gwesty neu symud ymlaen.

Mae'r teithiau tywys yn rhan o ymgyrch helaeth sy'n ceisio helpu pobl o bob gallu i fwynhau cerdded yng Ngogledd Cymru.

Yn ôl Rheolwr Cysylltiadau'r Cyfryngau Croeso Cymru, Beverley Jenkins, mae cerdded yn "faes ymgyrchu blaenoriaeth" i dwristiaeth yng Ngogledd Cymru ac mae rhaglen eang o weithgareddau cerdded yn cael ei chynnal drwy'r rhanbarth eleni.

Mae'r rhain yn amrywio o lwybrau arfordirol a gwyliau cerdded i'r ymarfer corff dwys a geir gyda cherdded Llychlynnaidd a'r defnydd o GPS - lloerennau lleoli byd-eang ar gyfer y gêm 'helfa drysor' a elwir yn 'geocaching'.

Mae yna hefyd gynllun cenedlaethol Croeso i Gerddwyr mewn 18 o drefi a phentrefi yn y Deyrnas Unedig, ac mae pump o'r rheiny yng Ngogledd Cymru, sef Prestatyn/Meliden, Rhuddlan, Pentrefoelas, Llanfairfechan a Phenmaenmawr.

Meddai Malcolm Wilkinson, Cydgysylltydd y Prosiect: "Mae hon yn fenter bwerus sy'n dweud wrth ymwelwyr ein bod am iddyn nhw ddod yma.

"Mae'n annog ailagor llwybrau cerdded ac yn cynyddu mynediad ac mae'n rhoi hwb i'r fasnach gwely a brecwast.

"Rhan o'n gwaith ni yw hybu Gogledd Cymru fel cyrchfan i gerddwyr o bob cwr o'r byd."

Clywodd y fforwm hefyd gan Colin Antwis, o Fieldsman Trails, ynglŷn ag annog cerddwyr gydag anableddau, yn ogystal â Rob Hanna, o Gymdeithas y Cerddwyr, ar ei rôl yn ehangu mynediad a chroesawu technoleg newydd ar gyfer cerddwyr.

Mae hyn yn cynnwys GPS yn ogystal â gwybodaeth am lwybrau, tirnodau a mannau o ddiddordeb y gellir ei lawrlwytho i ffonau symudol, naill ai cyn cychwyn neu yn ystod y daith.

Meddai: "Mae'n golygu y gallwch fynd â llu o arbenigwyr o gwmpas gyda chi i gyfoethogi eich profiad o gerdded."

Ychwanegodd Dewi Davies: "Heb os nac oni bai mae Gogledd Cymru'n gyrchfan bwysig ar gyfer cerdded a gwaith y Fforwm yw hybu hynny a hyrwyddo cydblethu rhwng gwahanol sectorau, yn cynnwys diwylliant a chwaraeon."

www.tpnw.org

Y siaradwyr Fforwm Blynyddol Cerdded Gogledd Cymru o'r chwith: Beverley Jenkins, Rheolwr Hyrwyddo'r Cyfryngau, Croeso Cymru, Peter Snape, Nettability Web Solutions, Rob Hanna, Ramblers Cymru, Peter Hewlett, Cerdded Gogledd Cymru, Colin Antwis, Fieldsman Trails, Dewi Davies, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, Mandy Whitehead, Cadeirydd Cymdeithas Tywyswyr Gogledd Cymru a Carole Startin, PTGC.